



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

**Asesiad Perfformiad Amgylcheddol
Blynyddol 2025**
Dŵr Cymru

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan.



Cyhoeddwyd 29 Hydref 2026

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am–6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.
Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon drwy dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhagair y Prif Weithredwr



Mae ansawdd ein hafonydd, ein llynnoedd a'n moroedd yn parhau i fod yn un o'r materion y mae pobl yn poeni fwyaf amdanynt. Mae disgygliadau'r cyhoedd o gwmnïau dŵr, rheoleiddiadau a llywodraethau yn parhau i godi, ac yn haeddiannol felly. Mae pobl eisiau gweld dyfroedd glanach, rheoleiddio cryfach, a thystiolaeth glir bod gwelliant yn digwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o berfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr yn ystod cyfnod o graffu, buddsoddi a newid cynyddol ar draws y sector. Mae'n tynnu sylw at y meysydd lle gwneir cynnydd, a lle mae angen gwelliant pellach. Mae perfformiad Dŵr Cymru yn gymysg eleni. Mae rhai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos gwaith da i wella perfformiad amgylcheddol, ac agweddau eraill lle bydd angen buddsoddiad sylweddol i wneud gwahaniaeth.

Yn ogystal, mae buddsoddiad sylweddol bellach yn cael ei gyfeirio at wella perfformiad amgylcheddol, lleihau llygredd a chryfhau seilwaith. Ar yr un pryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cryfhau ei ddull rheoleiddio ei hun. Bydd

ein Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr newydd yn cynyddu'r craffu ar berfformiad cwmnïau dŵr ac yn helpu i sicrhau bod rhwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni.

Fodd bynnag, mae'r heriau'n parhau i fod yn sylweddol. Mae newid hinsawdd, pwysau poblogaeth a seilwaith sy'n heneiddio yn parhau i effeithio ar wydnwch yr amgylchedd dŵr. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, arloesedd a ffocws clir ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dod ar adeg bwysig. Mae'r drafodaeth ynghylch dyfodol y sector dŵr yng Nghymru yn datblygu, wedi'i llywio gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Wrth i ddisgygliadau newid, rhaid i'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn asesu ac yn cyfathrebu perfformiad newid hefyd.

Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad hwn yn gwneud mwy na dim ond edrych yn ôl. Mae'n darparu sail ar gyfer cam nesaf rheoleiddio a gwella. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull gweithredu, cynyddu tryloywder a chanolbwyntio ar y canlyniadau sydd bwysicaf: afonydd, llynnoedd a moroedd iachach, mwy o wydnwch, ac adfer hyder y cyhoedd.

Mae pobl Cymru, yn gwbl briodol, yn disgwyl safonau uchel gan bob un ohonom. Drwy gydweithio, mae gennym gyfle i sicrhau'r safonau hynny.

Ceri Davies
Prif Weithredwr CNC

Cyflwyniad

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella adnoddau Cymru. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd Cymru i wella llesiant a sicrhau dyfodol gwell i bawb.

Fel rhan o hyn, mae gennym rôl reoleiddio bwysig yn monitro perfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr. Mae hyn yn cynnwys olrhain digwyddiadau llygredd, gwirio cydymffurfiaeth â thrwyddedau, a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwella. Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn gyfrifol am ddal cwmnïau dŵr i gyfrif am gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac amgylcheddol – rydym yn eu herio i gymryd camau ataliol, fel na fydd llygredd yn digwydd.

Rydym yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru (DCWW) yng Nghymru, tra bod Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn rheoleiddio ei weithgareddau yn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu perfformiad cyfunol ar draws y ddwy wlad, oni nodir yn wahanol. Mae perfformiad Hafren Dyfrdwy yw'r unig gwmni dŵr a charthffosiaeth arall yng Nghymru, ac mae eu hadroddiad perfformiad ar gael ar ein [gwefan](#).

Gallwch ddod o hyd i fewnwelediadau manylach ar DCWW yn ein hadroddiadau [Digwyddiad Llygredd](#) ac [Olyngiadau data gorlifoedd storm](#).

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i rannu'n ddwy ran:

- Yn gyntaf, rydym yn asesu perfformiad DCWW yn erbyn metrigau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA). Mae'r EPA yn offeryn anstatudol ar gyfer cymharu perfformiad y 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth fwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Defnyddir metrigau amgylcheddol mesuradwy i ddarparu cymhariaeth cyson o'u perfformiad – rhoddir statws coch, ambr neu wyrdd (RAG) i bob metrig EPA. Yn seiliedig ar berfformiad ar draws yr holl fetrigau, rhoddir sgoriau rhifiadol EPA i bob cwmni. Cyhoeddir perfformiad DCWW gan NRW, a chyhoeddir perfformiad y 9 cwmni dŵr a charthffosiaeth arall sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr gan yr EA;
- Wedyn, rydym yn adolygu eu perfformiad amgylcheddol ehangach mewn meysydd allweddol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr EPA. Nid yw'r adroddiad hwn yn cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio cwmni dŵr.

Cynnwys

Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2025	7
Prif negeseuon ar berfformiad.....	8
Gwybodaeth gyfeirio ar EPA.....	8
Digwyddiadau llygredd	9
Metrig EPA 1: Cyfanswm y digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth).....	9
Metrig EPA 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr).....	10
Metrig EPA 3: Hunan-gofnodi digwyddiadau	11
Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr	12
Metrig EPA 4: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng	13
Metrig EPA 5: Metrig defnydd a gwaredu slwtsh yn foddhaol.....	14
Metrig EPA 6: Cyflawni Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) y Cynllun Rheoli Asedau (AMP)	15
Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI).....	16
Rhan 2: Asesiad perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru	17
Digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr.....	17
Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr.....	18
Cydymffurfiaeth â gofynion llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff.....	19
Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig	20
Adnoddau Dŵr.....	23
Digwyddiadau o weithgareddau adnoddau dŵr	23
Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr	23
Cynlluniau sychder a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.....	23
Gollyngiadau a defnydd o ddŵr	24
Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff	24
Gorfodi.....	25
Diogelwch cronfeydd dŵr	25
Asesiad Monitro Gweithredwyr (OMA)	26
Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2026.....	30
Atodiad 1: Methodoleg asesu perfformiad	32
Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad Dŵr Cymru yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2015-25.....	33

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1 Dangosodd 2025 ostyngiad mewn digwyddiadau carthffosiaeth, ond cynnydd mewn digwyddiadau cyflenwad dŵr (Categori 1 i 3)	10
Ffigur 2 Perfformiad gwaethaf Dŵr Cymru hyd yma gyda naw digwyddiad llygredd difrifol (categori 1 i 2).....	11
Ffigur 3 Mae hunan-gofnodi digwyddiadau'n gyffredinol yn gwella'n raddol, wrth aros ar 82% ar gyfer Gorsafoedd Pwmpio a Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff	
Ffigur 4 Mae nifer y trwyddedau rhifol sy'n methu wedi codi o 8 i 12, sy'n golygu bod cydymffurfiaeth â thrwyddedau gollwng rhifol wedi gostwng i 98.1%.....	14
Ffigur 5 Nifer y digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr wedi mwy na dyblu ers 2024, gan godi o 23 i 51	18

Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol DCWW 2025

Adolygir targedau a metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) bob pum mlynedd er mwyn gyrru gwelliant parhaus. Mae'r adroddiad 2025 hwn yn nodi'r bumed flwyddyn, a'r flwyddyn olaf, o asesu DCWW yn erbyn methodoleg 2021-25. Rydym yn parhau i ddal y cwmni i gyfrif am eu dyletswyddau statudol, gan annog ymyriadau wedi'u targedu i wella perfformiad yr EPA a chanlyniadau amgylcheddol ehangach.

Yn 2025, enillodd DCWW statws gwyrdd ar draws dau fetrig yr EPA, statws oren ar draws tri a statws coch ar gyfer un. Mae hyn wedi arwain at y cwmni'n cyflawni sgôr cwmni cyffredinol o 2-seren, sy'n dynodi bod y cwmni 'angen gwneud gwelliannau'. Mae'r cwmni wedi aros yn 2-seren am bedair blynedd adrodd yn olynol.

Crynodeb o berfformiad DCWW:

Metrig EPA	Canlyniad 2025	Cymhariaeth gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol
Metrig 1: Cyfanswm y digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)	30 (Oren)	Arhosodd yn oren
Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)	9 (Coch)	Arhosodd yn goch
Metrig 3: Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)	78% (Oren)	Arhosodd yn oren
Metrig 4: Cydymffurfio â thrwydded ollwng (rhifol)	98.1% (Oren)	Arhosodd yn oren
Metrig 5: Defnydd a gwaredu slwtsh yn foddhaol	100% (Gwyrdd)	Arhosodd yn wyrdd
Metrig 6: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol	100% (Gwyrdd)	Arhosodd yn wyrdd
Sgôr seren gyffredinol y cwmni	2 seren	Arhosodd yn 2 seren am bedair blynedd yn olynol

Allwedd: Statws metrig

Gwyrdd	Perfformiad yn well na'r targed
Oren	Perfformiad yn is na'r targed
Coch	Perfformiad yn sylweddol is na'r targed

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

4 seren	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
3 seren	Cwmni da
2 seren	Cwmni sydd angen ei wella
1 seren	Cwmni sy'n perfformio'n wael

Prif negeseuon ar berfformiad

Fel y crynhoir ar dudalen 7, roedd perfformiad DCWW yn 2025 yn cynnwys un metrig yn sylweddol is na'r targed (coch), tri yn agos at y targed (oren) ond yn is na'r targed, a dau yn well na'r targed (gwyrdd).

- **Metrig 1 Digwyddiadau Llygredd Carthffosiaeth (Categoriâu 1–3)**
Gostyngodd nifer y digwyddiadau yn 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Arhosodd y metrig yn oren.
- **Metrig 2 Digwyddiadau Llygredd Difrifol**
Cofnodwyd naw digwyddiad (tri yn fwy nag yn 2024), ac arhosodd y metrig yn goch.
- **Metrig 3 Hunan-Gofnodi Digwyddiadau Llygredd**
Wedi gwella 4% ers 2024, ond yn dal yn oren.
- **Metrig 4 Cydymffurfiaeth â Thrwyddedau Ansawdd Dŵr Rhifol**
Wedi gostwng 0.6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan aros yn oren.
- **Metrig 5 Defnydd a Gwaredu Slwtsh yn Foddhaol**
Arhosodd ar 100%, gan gynnal statws gwyrdd.
- **Metrig 6 Cyflawni Cynlluniau Cynllun Rheoli Asedau**
Wedi'i gyflawni 100%, gan barhau i fod yn statws wyrdd.
- **Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI)**
Mae'r metrig hyn wedi'i atal ar gyfer blwyddyn ddata 202. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, mae DCWW yn parhau i ddal statws coch am ddigwyddiadau llygredd difrifol, gan atal dyrchafiad i sgôr seren uwch. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried y cynnydd parhaus mewn digwyddiadau llygredd carthffosiaeth difrifol, gyda 2025 yn cynrychioli perfformiad gwaethaf y cwmni erioed. Ni ellir priodoli'r dirywiad mewn perfformiad llygredd i dynhau trothwyon yr EPA a gyflwynwyd yn 2021.

Gwybodaeth gyfeirio ar EPA

Am fanylion ar fethodoleg yr EPA a chrynodeb o berfformiad blynyddoedd blaenorol, cyfeiriwch at yr atodiadau:

- [Atodiad 1](#) sy'n esbonio'r fethodoleg rydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni
- [Atodiad 2](#) sy'n dangos sut mae DCWW wedi perfformio yn erbyn metrigau'r EPA ers 2015

Digwyddiadau llygredd

Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau llygredd, ac mae rhai ohonynt yn deillio o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar nifer y digwyddiadau a briodolir i bob cwmni dŵr er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ysgogi gwelliant parhaus. O fewn llyw rheoleiddio Gofynion Amgylcheddol Strategol y Diwydiant Dŵr (WISER), mae gofyniad statudol i gwmnïau dŵr gael tueddiad o ran digwyddiad llygredd sy'n gostwng erbyn 2025, a dylai fod gostyngiad o 40% o leiaf o'i gymharu â nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2016. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr atal pob digwyddiad difrifol (Categori 1 a 2).

Rydym yn defnyddio pedwar categori i asesu effaith digwyddiadau llygredd:

- **Categori 1 - Sylweddol:** potensial i achosi effaith sylweddol, ddifrifol, barhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.
- **Categori 2 - Arwyddocaol:** potensial i achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.
- **Categori 3 - Bach:** potensial o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.
- **Categori 4 – Dim effaith:** diffyg cydymffurfiaeth ar safle sy'n cael ei reoleiddio lle na ellir rhagweld unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.


Metrig EPA 1: Cyfanswm y digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Yn 2025, roedd gan DCWW 107 o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Categori 1-3. Cafodd 101 effaith amgylcheddol bach (Categori 3) a chafodd chwe effaith amgylcheddol arwyddocaol (Categori 2). Mae hyn 25 yn llai o ddigwyddiadau nag yn 2024, gwelliant rhagorol.

Mae'r EPA yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl cyfanswm hyd y carthffosydd mae'r cwmni'n gyfrifol amdanynt (36,249 km i DCWW), felly gwnaethant gyflawni statws oren ar gyfer y metrig hwn.

Metrig EPA	Uned fesur	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2025 (statws metrig)
Cyfanswm y digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)	Digwyddiadau Cat 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd	Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-3, yn ôl hyd y carthffosydd	30 (Oren)

Fel mae'r graff isod yn dangos, mae DCWW wedi lleihau cyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd carthffosiaeth ers 2024. Cawsant yr un nifer o ddigwyddiadau ag yn 2023. Cawsant yr un nifer ag yn 2016 felly nid ydynt yn bodloni'r gostyngiad o 40% a nodwyd yn WISER. Rydym yn disgwyl i'r cwmni ddangos gostyngiadau parhaus mewn digwyddiadau.




Ffigur 1 Dŵr Cymru Welsh Water Cyfanswm yr achosion o lygredd carthffosiaeth 2025

Metrig EPA 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)

Mae'r metrig hwn yn edrych ar nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff isod, roedd wyth digwyddiad difrifol yn 2025 a oedd ag effaith amgylcheddol arwyddocaol (Categori 2), ac un a chafodd effaith amgylcheddol arwyddocaol sylweddol (Categori 1).

Metrig EPA	Uned fesur	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2025 (statws metrig)
Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)	Cyfanswm y digwyddiadau (Categori 1-2)	Faint o achosion difrifol o lygredd carthffosiaeth a chyflenwad dŵr a ddigwyddodd, o Gategori 1-2, cyfanswm	9 (Coch)

Yn 2025, roedd cyfanswm o 9 digwyddiad difrifol. Cysylltwyd 3 digwyddiad ag asedau cyflenwi dŵr – dau Categori 2, ac un Categori 1. digwyddiad llygredd difrifol fel rhai Categori 2, ac roedd un digwyddiad glân a oedd yn Gategori 1. Dyma berfformiad gwaethaf DCWW hyd yma ar gyfer y mesur hwn. I gyflawni gwyrdd yn y metrig hwn, byddai angen 0 digwyddiad, lle mae ambr yn cyfateb i un digwyddiad. Roedd y digwyddiadau'n gysylltiedig ag amrywiaeth o asedau, gan gynnwys prif bibellau dosbarthu dŵr, prif garthffosydd ymgodol, charthffosydd budr a gorsafoedd pwmpio carthion. Roedd pedwar o'r naw yn gysylltiedig â chyfres o ffrwydradau ar hyd un brif bibell gyflenwi yn Ne Cymru.



Ffigur 2 Digwyddiadau llygredd difrifol Dŵr Cymru Welsh Water (Categori 1 i 2) 2025

Dylai DCWW wthio am welliant yn y maes hwn a gweithio'n gyflym tuag at leihau digwyddiadau difrifol o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr, gan ddefnyddio arfer gorau'r diwydiant a gweithredu'n gyflym ar ganfyddiadau o ddadansoddiadau o achosion yn dilyn digwyddiadau.

Metrig EPA 3: Hunan-gofnodi digwyddiadau

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr hunan-gofnodi o leiaf 80% o ddigwyddiadau llygredd. O dan fetrigau llymchwr yr EPA, mae cyflawni statws gwyrdd bellach yn gofyn am 80% o hunan-gofnodi cyffredinol, yn ogystal â 90% o hunan-gofnodi mewn gorsafoedd pwmpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff.


Mae hunan-gofnodi'n dangos bod cwmni:

- yn deall ei asedau a'i rwydweithiau;
- yn defnyddio telemetreg ac offer eraill i ragweld a chanfod digwyddiadau;
- yn nodi lleoliadau a mathau o asedau risg uchel;
- yn ymateb yn gyflym i leihau'r effaith amgylcheddol.

Yn 2025, arhosodd DCWW ar statws oren, gyda chyfradd hunan-gofnodi gyffredinol o 78%. Mae hwn yn welliant cyson o flwyddyn i flwyddyn ers 2022, ond mae'n dal i fod yn is na'r trothwy o 80%. Roedd digwyddiadau carthffosiaeth yn deillio o Orlifoedd Carthffosydd Cyfun a charthffosydd budr ymhlith y rhai a hunan-gofnodwyd leiaf, tra bod 100% o ddigwyddiadau o weithfeydd trin dŵr wedi'u hunan-gofnodi.

Yn gadarnhaol, mae hunan-gofnodi mewn gorsafoedd pwmpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn 82%, sydd yn 1% yn uwch na'r llynedd. Fodd bynnag, nid oedd 12 digwyddiad o'r mathau hyn o asedau wedi'u hunan-gofnodi o hyd, er gwaethaf

presenoldeb systemau telemetreg. Mae angen gwelliant pellach i gyrraedd y targed 90% yn 2026. Rydym yn annog y cwmni i archwilio technolegau arloesol a mentrau a ddefnyddir ar draws y diwydiant i gryfhau hunan-gofnodi, yn enwedig mewn gorsafoedd pwmpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff, a chefnogi dychweliad i statws gwyrdd.



Ffigur 3 Adroddiadau hunan-gyflwynedig cyffredinol am ddigwyddiadau o 2015 i 2025. Mae'r llinell oren yn dangos yr adroddiadau hunan-gyflwynedig ar gyfer gorsafoedd pwmpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Mae NRW a'r EA yn dyroddi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfiaeth. Mae'r ddau rheoleiddiwr wedi cynyddu eu gweithgareddau asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys arolygiadau ac archwiliadau safle, ac rydym yn disgwyl y cydymffurfir â holl amodau'r drwydded.

Mae'r ddau rheoleiddiwr yn defnyddio'r categorïau diffyg cydymffurfio 1 i 4 pan fyddwn yn asesu cydymffurfiaeth ag amodau trwydded:

- **Categori 1** – Sylweddol: Potensial i achosi effaith sylweddol, ddifrifol, barhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.
- **Categori 2** – Arwyddocaol: Potensial i achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.

- **Categori 3 – Bach:** Potensial o ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.
- **Categori 4 – Dim effaith amgylcheddol:** Diffyg cydymffurfiaeth ar safle a reoleiddir lle na ellir rhagweld y bydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo


Pan fyddwn yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio, rhaid inni ystyried yr effaith bosibl yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ragweld yn rhesymol. Caiff pob achos o ddiffyg cydymffurfio ei gofnodi ar Adroddiad Asesu Cydymffurfiaeth a'i anfon at ddeiliad y drwydded. Lle bo angen, gallwn osod camau gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y safle'n cydymffurfio o'r newydd â'r drwydded ac ystyried ein hopsiynau gorfodi.

Metrig EPA 4: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng

Yn 2025, cyflawnodd DCWW statws oren ar gyfer y metrig hwn, gan gydymffurfio â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr 98.1% o'r amser. Mae hwn yn ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol, pan gyflawnodd y cwmni gydymffurfiaeth o 98.6%. Mae'r graff isod yn dangos, o'r 585 gwaith trin dŵr gwastraff mae DCWW yn gweithredu, roedd 11 nad oeddynt yn cydymffurfio, ac roedd 1 gwaith trin dŵr nad oedd yn cydymffurfio allan o 37. Er mwyn cyrraedd statws gwyrdd ar gyfer y mesur hwn, roedd angen i berfformiad 2025 fod yn hafal i neu'n uwch na 99%.

Metrig EPA	Uned fesur	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2025 (statws metrig)
Cydymffurfio â thrwydded ollwng (gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr)	%	Canran y gweithfeydd trin dŵr gwastraff a'r gweithfeydd trin dŵr sy'n cydymffurfio â'r terfynau rhifol ar eu gollyngiadau	98.1 (Oren)

Disgwyliwn i DCWW chwilio am gyfleoedd i fonitro a nodi gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr a allai fod yn gostwng mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth o 100% â'r metrig hwn. Er nad yw'r cwmni wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn. Noder y byddai canlyniad o 98.0% neu is wedi gwneud y metrig hwn yn goch.



Ffigur 3 Nifer y trwyddedau rhifiadol nad oeddent yn cydymffurfio rhwng 2014 a 2025. Roedd 12 safle nad oeddent yn cydymffurfio yn 2025.

Metrig EPA 5: Metrig defnydd a gwaredu slwtsh yn foddhaol

Metrig EPA	Uned fesur	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2025 (statws metrig)
Metrig defnydd a gwaredu slwtsh yn foddhaol	%	P'un a yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â storio, ailgylchu a/neu waredu slwtsh carthion	100% (Gwyrdd)

Mae'r metrig hwn yn asesu cyfran y slwtsh carthion sy'n cael ei aildefnyddio neu ei waredu'n ddiogel, wedi'i fesur mewn tunnell o solidau sych (tds). Fel y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli slwtsh unwaith y bydd yn gadael safleoedd gweithredol, mae'n ofynnol i DCWW gofnodi'r swm a gafodd ei drin mewn modd boddhaol, yn ogystal â nodi unrhyw slwtsh a reolir yn anfoddhaol.

Mae'r cwmni'n rheoli'r slwtsh y mae'n ei gynhyrchu a'r slwtsh a dderbynnir o ffynonellau allanol. Er mwyn i ddefnyddio neu waredu slwtsh gael ei ddosbarthu fel boddhaol, rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol canlynol:

- Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) (SUiAR);
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2016) – sy'n cwmpasu adferiad i dir (heb ei gynnwys yn SUiAR) a storio cyn ei ddefnyddio o dan SUiAR (o dan eithriad gwastraff penodol);

- Y Matrics Slwtsh Diogel.

Disgwylir i gwmnïau dŵr gyflawni defnydd neu waredu boddhaol o leiaf 98.2%.

Yn 2025, cofnododd DCWW gydymffurfiaeth o 100% yn erbyn y metrig hwn eto. O'r 35,008 tds o slwtsh boddhaol a symudwyd:

- Defnyddiwyd 34,934 tds ar dir amaethyddol;
- Trosglwyddwyd 14 tds i Gwmni Dŵr a Charthffosiaeth (WaSC) arall;
- a throsglwyddwyd 60 tds i safle tirlenwi i'w gwaredu.
- Cyfanswm yr arwynebedd tir a ddefnyddiwyd ar gyfer amaethyddiaeth oedd 6,563 hectar.

Gellir dadansoddi'r ffigurau yn ôl gwlad:

- **Cymru** - Defnyddiwyd 31,035 tds ar dir amaethyddol
- **Lloegr** - Defnyddiwyd 3,973 tds, gan gynnwys 3,899 tds ar dir amaethyddol, 60 tds mewn safle tirlenwi a 14 tds i WaSC arall.

Metrig EPA 6: Cyflawni Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) y Cynllun Rheoli Asedau (AMP)

Mae'r metrig hwn yn ystyried sut mae DCWW wedi cyflawni yn erbyn ei AMP pum mlynedd rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Mae'n edrych ar ganran y cynlluniau a gyflawnwyd o gymharu â'r cynlluniau cronus a gynlluniwyd o'r AMP 5 mlynedd cyffredinol 2025-2030.

Metrig EPA	Uned fesur	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2025 (statws metrig)
Cyflawni Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Cynllun Rheoli Asedau (AMP)	% o'r danfoniad a gynlluniwyd	P'un a yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd ai peidio	100 (Gwyrdd)

Yn 2025/26, ar ôl newidiadau y cytunwyd arnynt, cyflawnodd DCWW 452 o gynlluniau fel y cynlluniwyd – 64 o gynlluniau gwella, gan gynnwys 56 o ymrwymadau a gyflawnwyd yn gynnar (h.y. cynlluniau Trwydded Wrth Gefn, Cynlluniau Ffosforws Cynefinoedd a Chynlluniau Atal Dirywiad y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr), 73 o gynlluniau ymchwilio i orlifoedd stormydd a 315 o weithrediadau monitro Llif a Basiwyd Ymlaen (h.y. MON3). Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn sicrhau gwelliannau ansawdd dŵr. Mae holl rwymedigaethau blwyddyn 1 wedi'u cyflawni.

Mae un cynllun y mae'n rhaid ei adrodd gan yr EPA (cyfeirnod FLO00366) yn Lloegr lle mae'r statws dosbarthu wedi'i farcio fel "yn yr arfaeth". Mae'n gynllun i gynyddu Llif i Driniaeth Lawn yng ngorlif carthffosiaeth gyfun Homs Road ger y Rhosan-ar-Wy, Lower Cleeve. Mae unrhyw beth sydd wedi'i farcio fel "yn yr arfaeth" yn cael ei eithrio o'r cyfrifiad ac yn treiglo i asesiad y flwyddyn nesaf, felly yn yr achos hwn, caiff ei ddileu fel cynllun wedi'i gynllunio a bydd yn rhaid ei gofnodi'r flwyddyn nesaf fel "wedi'i gyflawni" neu "heb ei gyflawni".

Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI)

Ar gyfer asesu data 2025 (blwyddyn galendr 2025 a blwyddyn ariannol 2025/6), mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI) wedi'i atal. Fel rhan o ddatblygiad parhaus yr EPA byddwn yn gweithredu metrig newydd o ran cyflenwi adnoddau dŵr i ddisodli metrig y SDBI. Yn hytrach, eleni bydd y metrig newydd yn cael ei gwblhau.

Roedd metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI) yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) cwmni dŵr. Roeddem yn disgwyl i gwmnïau gael sgôr o 100.

Rhan 2: Asesiad perfformiad amgylcheddol ehangach DCWW

Mae chwe metrig yr EPA y manylir arnynt yn Rhan 1 yn is-set graidd o berfformiad amgylcheddol. Fodd bynnag, mae ein gwaith monitro, adrodd a rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau DCWW yn ymestyn y tu hwnt i'r metrigau hyn. Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn ymdrin â meysydd ychwanegol, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig yn agos â mesurau EPA, megis digwyddiadau a chydymffurfio â thrwyddedau, tra bod eraill yn adlewyrchu agweddau ehangach ar oruchwyliaeth amgylcheddol.


Digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr

Rydym yn monitro digwyddiadau llygredd o asedau sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr yfed. Nid yw'r niferoedd wedi'u cynnwys yn y metrig EPA uchod, gan fod hyn ar gyfer llygredd sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth yn unig.

Mae digwyddiadau cyflenwi dŵr yn agwedd bwysig ar berfformiad amgylcheddol, gan eu bod yn aml yn cynnwys gollyngiadau dŵr yfed wedi'i drin yn rhannol, neu'n llawn, o weithfeydd trin dŵr neu systemau dosbarthu. Gall gollyngiadau o'r fath achosi llygredd oherwydd presenoldeb cemegau fel clorin, alwminiwm, neu haearn, a gallant fynd i mewn i gyrsiau dŵr ar gyflymder, gan darfu ar waddodion a chyflwyno silt.

Yn 2025, roedd 55 digwyddiad llygredd o asedau cyflenwi dŵr. O'r rhain, dosbarthwyd 52 fel Categori 3, a thri oedd Lefel Uchel (Categori 1 neu 2).

Dirywiodd perfformiad digwyddiadau cyflenwi dŵr yn sylweddol yn 2025. Gwnaeth nifer y digwyddiadau fwy na dyblu o 23 yn 2024 i 55 yn 2025. Rydym yn disgwyl i DCWW adeiladu ar y cynnydd hwn drwy leihau ymhellach digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr, gyda phwyslais penodol ar gyflawni dim digwyddiadau llygredd difrifol.



Ffigur 4 Nifer y digwyddiadau yn ymwneud ag asedau cyflenwi dŵr rhwng 2014 a 2025. Cafwyd tri digwyddiad o Gategori 1 a 2 yn 2025.

Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Yn ogystal â metrigau'r EPA, mae'n bwysig hefyd ystyried tueddiadau mewn cydymffurfio ag amodau trwyddedau mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr. Mae'r amodau hyn yn cwmpasu agweddau nad ydynt yn rhifol megis cynnal a chadw safleoedd, rheolaeth weithredol, a rhwymedigaethau adrodd, gan gynnwys cyfrifoldebau hunanfonitro. Maent yn hanfodol i sicrhau bod safleoedd yn gweithredu'n gyfrifol ac yn unol â disgwyliadau amgylcheddol.

Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn mewn perfformiad, gyda'r nod o gyflawni cydymffurfiaeth lawn (100%) ar draws pob safle trwyddedig.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y safleoedd sy'n cydymffurfio â'u hamodau disgrifiadol, a nifer y safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio o 2020 i 2024:

	Canran sy'n cydymffurfio	Safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio
2020	63%	317
2021	87%	112
2022	91%	74
2023	87%	110
2024	85%	127
2025	72%	237

Yn hanesyddol, gwellodd cydymffurfiaeth ag amodau trwydded disgrifiadol yn sylweddol rhwng 2020 a 2022, gan godi o 63% i 91%. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn wedi'i gynnal, gyda chydymffurfiaeth yn gostwng i 72% yn 2025, y sgôr isaf ers 2020. Er bod perfformiad yn parhau i fod yn well nag yn 2020, mae'r dirywiad diweddar yn is na'r disgwyliadau. Rydym yn disgwyl i'r duedd ar i lawr hon gael ei gwrthdroi yn 2026, gyda DCWW yn cymryd camau i gyflawni cydymffurfiaeth lawn.

O'r 237 safle nad oedd yn cydymffurfio yn 2025, roedd y rhan fwyaf o achosion o dorri amodau mewn perthynas â gwaith monitro, adrodd a hysbysu ar gyfer rhaglenni Hunan-fonitro Gweithredwyr a Dŵr Gwastraff Trefol. Roedd y rhain yn cynnwys 22 achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2 (arwyddocaol), ochr yn ochr â nifer fwy o faterion Categori 3 a 4. Ystyrir bod achosion diffyg cydymffurfiaeth Categori 2 yn arwyddocaol, angen sylw brys a gall CNC ystyried cymryd camau gorfodi ar eu cyfer.

I wella cydymffurfio ag amodau disgrifiadol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud y canlynol:

- cymryd camau cyflym a chadarnhaol i fynd i'r afael â gwraidd achosion diffyg cydymffurfio yn 2026
- gwella perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan anelu at gydymffurfio 100%
- dileu'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio â Chategori 1 a 2, oherwydd eu potensial ar gyfer effaith amgylcheddol ddifrifol.

Cydymffurfiaeth â gofynion llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Cydymffurfiaeth â Llif Tywydd Sych

Llif Tywydd Sych (DWF) yw cyfaint dyddiol cyfartalog y dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i waith trin yn ystod amodau sych, pan nad oes glaw. Mae'n adlewyrchu llifoedd arferol o aelwydydd a busnesau. Mae DWF yn bwysig o ran cydymffurfiaeth gan fod llawer o drwyddedau gollwng yn seiliedig ar y lefel llif hon. Os yw'r llif yn rheolaidd yn uwch na'r DWF a ganiateir, gall ddynodi problemau fel ymdreiddiad neu orlwytho, a all effeithio ar berfformiad gwaith trin ac arwain at niwed amgylcheddol.

Darparodd DCWW ddata DWF yn unol â gofynion ei drwydded. Aeth 36 o weithfeydd trin dŵr gwastraff y tu hwnt i derfynau eu trwyddedau DWF yn ystod 2025, yn cynnwys gormodeddau am y tro cyntaf, a gormodeddau yr adroddwyd arnynt eisoes.

Roedd gan 11 safle ddata o ansawdd gwael a arweiniodd at dorri trwyddedau. Mae'n ofynnol bod DCWW yn cynnal ymchwiliadau ac yn adrodd am achos y gormodedd i'r rheoleiddiwr perthnasol a, lle bo'n briodol, yn cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

Cydymffurfiaeth Llif i Driniaeth Lawn

Llif i Driniaeth Lawn (FFT) yw'r gyfradd llif uchaf y mae gwaith trin wedi'i ddylunio i'w drin yn llawn cyn i lifoedd gormodol gael eu dargyfeirio, fel arfer yn ystod glaw trwm. Mae'n sicrhau bod dŵr gwastraff yn cael ei drin yn briodol cyn cael ei ollwng i'r amgylchedd. Mae cydymffurfiaeth â FFT yn bwysig gan ei fod yn helpu i atal carthion heb eu trin, neu sydd wedi'u trin yn rhannol, rhag llifo i'r amgylchedd dŵr, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd.

Yn ystod 2025, yng Nghymru, adroddwyd bod gan 131 safle yng Nghymru Llif a Drosoglwyddir Ymlaen (FPF) yn is na'r lefel gofynnol, sef 92% o FFT am 95% o'r amser, sy'n codi cwestiynau o ran eu terfynau a ganiateir FFT. Roedd naw safle yn torri'r amod ansawdd data.

Ystyrir bod monitro cynyddol fel rhan o osodiadau monitro llif ac amodau trwydded newydd cysylltiedig ar gyfer FPF yn ffactor yn y nifer cynyddol o risgiau adroddadwy. Rydym yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud gyda'r rhaglen ymchwiliadau a gweithredu mesurau i fynd i'r afael â phroblemau mewn nifer o safleoedd. Rydym yn disgwyl i nifer y safleoedd sy'n cael eu hymchwilio leihau yn y blynyddoedd i ddod.

Cydymffurfio â chynllun ardystio monitro (MCERTS)

MCERTS yw ein cynllun ardystio monitro. Mae'n gosod safonau ar gyfer offer a systemau a ddefnyddir i fesur data amgylcheddol ac adrodd arno, megis cyfraddau llif mewn gweithfeydd trin. Mae cydymffurfio â MCERTS yn sicrhau bod monitro llif yn gywir, yn ddibynadwy, ac yn gyson â gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn ein helpu i asesu a yw safleoedd yn gweithredu o fewn eu terfynau a ganiateir ac yn amddiffyn yr amgylchedd rhag niwed posibl.

Mae DCWW wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd ei holl safleoedd yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS yn 2024 a 2025.

Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig

Asesiad cydymffurfiaeth â thrwyddedau

Drwy ein gwaith ymateb i ddigwyddiadau a gwaith asesu cydymffurfiaeth â thrwyddedau, gwnaethom nodi diffyg cydymffurfiaeth yng ngorlifoedd storm a ganiateir (gorsafoedd pwmpio carthion, gorlifoedd carthffosydd cyfun a gollyngiadau storm o weithfeydd trin dŵr gwastraff) am amrywiaeth o resymau.

Y math mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio yn 2025 oedd problemau â monitro hyd digwyddiadau (EDM). Nid oedd 105 o safleoedd yn cydymffurfio oherwydd bod eu hoffer EDM yn weithredol am lai na 90% o'r flwyddyn. Gwnaethom gofnodi 89 achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 4 a 10 achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 3; rhoddwyd Rhybudd i'r mwyafrif. Cofnodwyd 6 safle gydag achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2. Mae camau

gorfodi yn cael eu hystyried ar gyfer yr achosion mwy difrifol hyn o ddiffyg cydymffurfio. Rydym wedi pennu camau gweithredu i DCWW ymchwilio i'r achos gwreiddiol a darparu cynllun gwella ar gyfer y safleoedd hyn nad ydynt yn cydymffurfio ag EDM.

Monitro Hyd Digwyddiad

Mae DCWW wedi gosod EDM i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar y rhan fwyaf o'u gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod EDM wedi'i osod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun);
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio carthion;
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan. Adroddiadau ar [orlifoedd storm](#) a [data gollyngiadau gorlif storm](#).

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at fwy o ollyngiadau am gyfnodau hwy, tra bod tywydd sych yn cael effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn o nodi pryd mae gollyngiadau'n digwydd mewn tywydd sych, a fydd yn caniatáu i ni asesu perfformiad gorlifoedd storm yn well.

Gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar gyfartaledd glawiad hirdymor yng Nghymru (1991-2020), roedd 2025 yn flwyddyn gyfartalog ar gyfer glawiad, h.y. o fewn y 60% canol. Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio cyfanswm y glawiad ledled Cymru o ddata y mae CNC yn ei dderbyn gan y Swyddfa Dywydd (HADUK).

Er gwaethaf haf sych, roedd cyfanswm y glawiad ar gyfer y flwyddyn yn dal i fod yn 97% o'r cyfartaledd hirdymor (1991 i 2020). Roedd mis Medi a mis Tachwedd yn llawer gwlypach na'r cyfartaledd, gan gofnodi 174% a 159% o'r cyfartaledd hirdymor yn y drefn honno.

Blwyddyn	Glawiad Cymru
2021	Blwyddyn gyfartalog
2022	Blwyddyn sych
2023	Blwyddyn wlyb
2024	Blwyddyn gyfartalog
2025	Blwyddyn gyfartalog

Data EDM a gofnodwyd

Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn defnyddio data cryno EDM 2025 a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn eu ffurflen reoleiddio flynyddol. Nid yw data cryno EDM o orlifoedd storm a ganiateir yn Lloegr yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn oherwydd bod yr EA yn cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer safleoedd DCWW yn Lloegr.

Rhestrodd DCWW 1,983 o drwyddedau yn eu ffurflen yn 2025. Fe wnaethom barhau i gyhoeddi amrywiadau EDM i drwyddedau gorlif stormydd yn ystod 2025.

Rydym wedi gweld gwelliant cyffredinol yn 2025, gyda 105 (5.2%) o EDMs y cwmni dŵr ar waith am lai na 90% o'r flwyddyn o'i gymharu â 279 (13.5%) yn 2024. Disgwyliwn i'r cwmni dŵr wella gweithrediad EDM fel bod pob EDMs yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser cyn gynted â phosibl, safon y diwydiant y cytunwyd arni. Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i weithio i wella cyflawnrwydd a chywirdeb data ar gyfer setiau data gorlif stormydd.

Nifer y gollyngiadau

Cyfrifir nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif bloc 12/24. Mae'r dull cyfrif blociau gollyngiadau 12/24 yn ymwneud â dull adrodd cytunedig. Mae'n cyfrif gollyngiadau yn ystod y 12 awr gyntaf, ac yna yn y cyfnod dilynol o 24 awr. Mae'r EA yn defnyddio'r un dull hwn felly mae cysondeb ar draws cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr wrth gyfrif gollyngiadau gorlifoedd storm.

Mae data gollyngiadau o'r 1,983 o orlifoedd storm a ganiateir gan DCWW, yn dweud wrthym:

- Ni ddarparwyd unrhyw ddata ar gyfer 1% (18);
- Roedd 7% (146) wedi cael 0 gollyngiad;
- Roedd 19% (381) wedi gollwng rhwng 1 a 9 gwaith;
- Roedd 29% (569) wedi gollwng rhwng 10 a 39 gwaith;
- Roedd 33% (650) wedi gollwng rhwng 40 a 99 gwaith;
- Roedd 11% (216) wedi gollwng rhwng 100 a 299 o weithiau;
- Roedd llai nag 1% (3) wedi gollwng mwy na 300 o weithiau.

Hyd y gollyngiadau

Mae data hyd o'r 1,983 o orlifoedd storm a ganiateir gan DCWW, yn dweud wrthym:

- Ni ddarparwyd unrhyw ddata ar gyfer 1% (19);
- Cafodd 7% (146) 0 awr o ollyngiadau;

- Cafodd 32% (637) ollyngiadau a barodd am fwy na 0 awr ond llai na 50 awr;
- Cafodd 25% (499) ollyngiadau a barodd am fwy na 50 awr ond llai na 250 awr;
- Cafodd 12% (237) ollyngiadau a barodd am fwy na 250 awr ond llai na 500 awr;
- Cafodd 11% (222) ollyngiadau a barodd am fwy na 500 awr ond llai na 1,000 awr;
- Cafodd 11% (223) ollyngiadau a barodd am fwy na 1,000 awr ond llai na 5,000 awr;
- Cafodd 0% (0) ollyngiadau a barodd am fwy na 5,000 awr.

Adnoddau Dŵr

Digwyddiadau o weithgareddau adnoddau dŵr

Roedd tri digwyddiad lefel uchel o ganlyniad i weithgareddau adnoddau dŵr yn 2025.

- Ar 13 Mai 2025, hunan-gofnododd DCWW fod prif bibell ddŵr glân haearn bwrw 8 modfedd wedi byrstio a mynd i mewn i afon Taf Fechan ger Pontsticill. Aeth silt i mewn i'r afon 0.5km i fyny'r afon o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Coedwig Cwm Taf Fechan gan achosi digwyddiad i ddŵr Categori 2.
- Ar 6 Awst 2025, achoswyd digwyddiad Categori 1 gan ollyngiad dŵr glân o brif bibell 8 modfedd. Yn ystod gwaith atgyweirio, cafodd swm sylweddol o silt ei symud a aeth i mewn i Nant Crymlyn, a gellir ei weld 3 milltir / 5km i lawr yr afon. Mae camau gorfodi yn cael eu hystyried ar gyfer y digwyddiad hwn.
- Ar 2 Tachwedd 2025, derbyniodd CNC alwad bod afon Tregatwg yn Ninas Powys yn rhedeg yn goch. Canfu ymchwiliadau fod contractwyr DCWW wedi achosi digwyddiad llygredd silt Categori 2, o waith ar y Rhwydwaith Dosbarthu Dŵr.

Pan fydd digwyddiad ar safle sydd â thrwydded, rydym yn cynnal asesiad o gydymffurfiaeth â'r amodau yn y drwydded. Yn yr adran nesaf, manylir ar ein gwaith cydymffurfiaeth ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2025, fe wnaethom ni gynnal 52 asesiad cydymffurfio o ran trwyddedau adnoddau dŵr DCWW. Canfuwyd bod 41 asesiad yn cydymffurfio. Nodwyd 11 achos o dorri amodau trwydded. Ni chafodd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio eu sgorio'n uwch na Categori 3 h.y. potensial o effaith amgylcheddol fach.

Cynlluniau sychder a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMPs) a Chynlluniau Sychder. Cyhoeddwyd y WRMP diweddaraf yn 2024. Cyhoeddwyd y Cynllun Sychder diweddaraf ym mis Chwefror 2026. Mae'r cynlluniau'n cael eu cyhoeddi bob pum

mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â WRMP a Chynllun Sychder DCWW, gweler ei wefan:

- [Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024](#)
- [Cynllun Sychder 2025](#)

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- [Cynllunio Adnoddau Dŵr](#)
- [Sychder](#)
- [Canllawiau cynllun sychder](#)

Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Canfu [ymchwiliad gan Ofwat](#) fod DCWW wedi camarwain cwsmeriaid a rheoleiddwyr ar ei berfformiad o ran gollyngiadau a defnydd y pen (defnydd dŵr fesul person) dros gyfnod o bum mlynedd.

Anfonodd CNC, yr EA ac Ofwat llythyr rheoleiddiwr ar y cyd at DCWW ar yr Adolygiad Blyneddol o'i Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2023/24, gan dynnu sylw at ein pryderon ynghylch perfformiad y cwmni o ran rheoli galw, yn enwedig ar gyfer gollyngiadau a allai effeithio ar ddiogelwch y cyflenwad a/neu risg i'r amgylchedd. Cyhoeddwyd y llythyr ar [wefan Ofwat](#).

Roedd y llythyr yn nodi ein disgwyliadau i DCWW gymryd camau ar unwaith i wella perfformiad ar y materion a godwyd a chynnal cyfarfodydd â CNC, Ofwat ac yr EA i ddangos cynnydd ar fynd i'r afael â'r materion hynny.

Mae defnyddio dŵr yn effeithlon a lleihau gollyngiadau yn angenrheidiol i adeiladu gwytnwch hinsawdd ar gyfer natur a phobl.

Dylai'r cyfraddau gollyngiadau diwygiedig a'r wybodaeth am ddefnydd dŵr ar gyfer 2025/26 fod ar gael yn www.discoverwater.co.uk cyn bo hir.

Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â gwastraff, yn cynnwys trin biowastraff, gweithrediadau tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh, a gweithredu gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer gweithgareddau a drwyddedir, rydym yn asesu cydymffurfiaeth yn erbyn amodau trwydded ac yn cofnodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

Yn 2025, gwnaethom gynnal 18 o asesiadau cydymffurfiaeth ar draws saith safle, gan nodi wyth achos o dorri amodau trwydded. Dosbarthwyd pob un fel diffyg cydymffurfio C3. Er bod hyn yn cynrychioli lefel is o risg amgylcheddol, rydym yn disgwyl i DCWW gymryd camau i gyflawni cydymffurfiaeth lawn.

Gorfodi

Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu trin yn deg, yn gadarn, ac yn gymesur er mwyn atal niwed pellach. Mae camau gorfodi wedi'u seilio ar ein *Hopsiynau Ymateb i Droseddau*, sy'n cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad
- Rhybuddion ffurfiol
- Sancsiynau sifil
- Erlyniad

Mae ymateb a ddewisir yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio a budd y cyhoedd.

Nod ein hymyriadau gorfodi yw:

- Rhoi terfyn ar droseddau parhaus
- Adfer difrod amgylcheddol
- Atal achosion o dorri rheolau yn y dyfodol
- Hyrwyddo cydymffurfiaeth barhaus

Gellir datrys troseddau bach neu anfwriadol drwy addysg neu gamau gwirfoddol. Ystyrir erlyn fel dewis olaf, ac ni fyddwn ond yn mynd ar drywydd hynny ar ôl gweld bod dulliau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol, neu lle bo'r drosedd yn arbennig o ddifrifol. Gall ymchwiliadau cymhleth gymryd amser, ac yn aml caiff canlyniadau eu hadrodd yn y blynyddoedd dilynol.

Camau gorfodi: crynodeb achosion

Dŵr Cymru – Diffyg cydymffurfio disgrifiadol ledled Cymru

Yn 2025, daeth [erlyniad](#) yn erbyn DCWW i ben a oedd yn gysylltiedig ag achosion o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau disgrifiadol ledled Cymru yn 2020 a 2021. Dirwy o £1.35 miliwn yn wreiddiol, ar 17 Hydref 2025, yn dilyn apêl gan DCWW, gostyngodd y llys y ddirwy i £120,000 ynghyd â £70,237 o gostau erlyn. Ni apelwyd yn erbyn yr euogfarn.

Mae'r camau gorfodi hyn yn adlewyrchu difrifoldeb diffyg cydymffurfio dro ar ôl tro, a phwysigrwydd amddiffyn cyrsiau dŵr rhag gollyngiadau heb awdurdod.

Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae DCWW yn rheoli 134 o gyforgronfeydd dŵr mawr cofrestredig, ac mae 117 ohonynt wedi'u dynodi'n rhai "risg uchel". Cyforgronfeydd dŵr mawr yw cronfeydd dŵr risg uchel, a ddynodwyd gennym ni, lle credwn y gallai bywyd dynol fod mewn perygl pe bai argae yn methu, gan achosi i ddŵr gael ei ryddhau heb ei reoli.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn monitro cydymffurfiaeth chwarterol yn erbyn dangosyddion diogelwch allweddol, gan gynnwys:

- cronfeydd dŵr heb beiriannydd adeiladu neu oruchwylio penodedig
- cronfeydd dŵr heb eu harchwilio o fewn yr amserlen ofynnol
- cronfeydd dŵr lle nad yw mesurau diogelwch a argymhellwyd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan y peiriannydd arolygu.

Drwy gydol 2025, cyflawnodd DCWW gydymffurfiaeth lawn (100%) bob chwarter ar gyfer penodi peirianwyr cronfeydd dŵr a chwblhau'r arolygiadau gofynnol.

Ar gyfer mesurau diogelwch, cofnodwyd diffyg cydymffurfiaeth mewn pedwar cronfa ddŵr yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd cydymffurfiaeth gyffredinol yn 98.3%, gan gynrychioli dwy gronfa ddŵr allan o 117 o gronfeydd dŵr risg uchel y mae'r rheolau'n berthnasol iddynt.

Ym mhob achos o ddiffyg cydymffurfio, roedd y rhesymau dros yr oedi wrth gwblhau mesurau diogelwch yn gysylltiedig â graddfa'r gwaith oedd ei angen, a gynlluniwyd a gweithredwyd dros sawl blwyddyn, ynghyd â thynnu dŵr i lawr o'r prif gronfeydd cyflenwi dŵr.

Achoswyd oedi hefyd gan amodau tywydd eithafol yn ystod gaeaf 2024-25, gwrthdaro â diogelwch cyflenwad dŵr cyhoeddus, gwrthdaro â rheoliadau'n amddiffyn adar sy'n nythu ac ehangiad prosiectau ar ddarganfod gwaith ychwanegol, buddiol i'w weithredu yn ystod y cyfnod tynnu dŵr i lawr hirfaith.

Nid yw methu â chydymffurfio â mesurau diogelwch a argymhellir yn cyfateb yn uniongyrchol i leihau diogelwch y cyhoedd. Ym mhob achos, gostyngwyd lefelau dŵr yn y cronfeydd dŵr gyda risg isel iawn o ddŵr yn dianc. Hefyd, penododd DCWW beirianwyr sifil cronfeydd dŵr cymwys annibynnol i sicrhau bod diogelwch cronfeydd dŵr yn cael ei reoli'n briodol. Mae'r peirianwyr hyn yn mynychu'r gwaith yn rheolaidd a gellir galw arnynt unrhyw bryd am gyngor.

Rhoddodd DCWW'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd inni ar gynnydd a thynnu ein sylw at unrhyw oedi wrth weithredu a'r rhesymau dros yr oedi hynny, cyn y dyddiadau cau statudol. Mae mesurau ar waith i sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr, ac rydym yn cymryd cyngor gan beirianwyr sifil cronfeydd dŵr cymwys annibynnol.

Asesiad Monitro Gweithredwyr (OMA)

Rydym yn cynnal yr archwiliadau hyn o drefniadau hunan-fonitro gweithredwyr i wirio bod Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth (WaSCs) yn cyflawni'r monitro gofynnol yn unol â'r safonau monitro yn ein trwyddedau a thrwy ein Cynllun Ardystio Monitro (MCERTS). Yr Asesiad Monitro Gweithredwyr (OMA) yw'r offeryn systematig a ddefnyddiwn i gynnal yr archwiliadau hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella a hyrwyddo arfer gorau.

Nid oes amserlen sefydlog ar gyfer cynnal archwiliadau OMA; rydym yn eu cynnal yn seiliedig ar ein hasesiad o risg a blaenoriaethau gweithredol. Roedd yr OMA diwethaf yn 2024, ac mae gennym OMA wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2026.

Gweithgaredd Rheoleiddio

Rydym wedi ymrwymo i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr drwy fframwaith rheoleiddio cadarn ac esblygol. Mae ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

1. Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (PIRPs)

Roedd Deddf Dŵr Mesurau Arbennig 1991 yn mewnosod darpariaethau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni dŵr gyhoeddi Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (PIRPs) ac Adroddiadau Gweithredu. Rhaid i PIRPs esbonio'n glir sut y bydd cwmnïau'n lleihau digwyddiadau llygredd o'u holl asedau. Bydd Adroddiadau Gweithredu yn adolygiad ôl-weithredol o ba mor llwyddiannus y gweithredwyd y mesurau lleihau digwyddiadau. Nid yw'r gofynion deddfwriaethol newydd yn cynnwys unrhyw sancsiynau os na fydd cwmnïau dŵr yn llwyddo i weithredu eu mesurau.

Fe wnaethon ni ddatblygu canllawiau allanol sy'n disgrifio'r hyn yr ydym yn disgwyl i PIRPs ac Adroddiadau Gweithredu ei gynnwys. Roedd rhaid cyhoeddi'r PIRPs cyntaf erbyn mis Ebrill 2026, ac fe'u hadolygydd gan CNC. Anfonodd CNC llythyr rhybudd at DCWW gan nad oedd eu PIRP yn gwbl foddhaol.

2. Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff

Mae gan ymgymrwyr carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd statudol i baratoi, cyhoeddi a chynnal Cynllun Rheoli Draenio a Charthffosiaeth o dan adran 94 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Gelwir y cynlluniau hyn yn Gynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff (DWMP). Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn cyfarwyddo ymgymrwyr carthffosiaeth ynghylch sut i baratoi, cyhoeddi a chynnal DWMP sy'n cydymffurfio.

Rydym yn gweithio tuag at wneud DWMPs yn statudol yng Nghymru, gan eu hymgorffori mewn strategaethau cynllunio a buddsoddi hirdymor.

- Rhaid i DWMPs fod yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, a chyd-fynd â nodau hinsawdd ac amgylcheddol.
- Byddant yn cefnogi cynllunio strategol dros gyfnod o 25 mlynedd, gan fynd i'r afael â heriau fel twf poblogaeth, newid hinsawdd, a gwydnwch seilwaith.
- Bydd cwmnïau dŵr yn cyhoeddi drafft o'r DWMP erbyn mis Tachwedd 2027, gan ganiatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a bydd DWMP terfynol yn cael ei ryddhau ym mis Awst 2028 – DWMP29

3. AMP8 Cyflawni Buddsoddiadau a Blaenoriaethau PR24

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyflawni eu hymrwymadau buddsoddi AMP8 (2025-2030), yn unol â thargedau perfformiad a osodwyd drwy PR24, dan arweiniad Ofwat.

- Mae blaenoriaethau rheoleiddio yn cynnwys lleihau llygredd, gwella ansawdd dŵr, gwella gwydnwch hinsawdd, a darparu gwasanaethau gwell.
- Byddwn yn dwyn cwmnïau i gyfrif am gyflawniad amserol a thryloyw ac yn sicrhau bod buddsoddiadau'n arwain at welliannau amgylcheddol pendant.

4. Cydymffurfio â Thrwyddedau a Chynllun Gwasanaeth Rheoleiddio

Mae ein Cynllun Gwasanaeth Rheoleiddio (RSP) blynyddol yn nodi targedau rheoleiddio ar draws cyfundrefnau. Drwy'r gwaith hwn, bu cynnydd mewn goruchwyliaeth reoleiddiol o asedau a ganiateir gan gwmnïau dŵr a gwaith cydymffurfio cysylltiedig. Nod y RSP, ac adroddiadau perfformiad chwarterol cysylltiedig, yw mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a datblygu gwasanaeth rheoleiddio cydnerth ac effeithiol a gyllidir yn gynaliadwy.

Mae cryfhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau yn hanfodol i atal digwyddiadau llygredd, a byddwn yn parhau i gynnal asesiadau mwy mynych a thrylwyr i sicrhau bod cwmnïau'n bodloni amodau trwydded.

5. Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026–2030)

Caiff methodoleg yr EPA ei hadolygu bob 5 mlynedd, ac yn 2026, rydym yn gweithredu fframwaith EPA diwygiedig ar gyfer 2026-2030.

Mae disgwyliadau, gan gynnwys llawer sy'n berthnasol i'r EPA, wedi'u nodi yng [Ngofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru](#) (WWISER) ar gyfer 2026 i 2030. Bydd hyn yn cynnwys metrigau ychwanegol i wella craffu ac atebolrwydd, a bydd perfformiad yn cael ei feincnodi i ysgogi gwelliant parhaus.

6. Rheoleiddio cydweithredol a gwella'r sector

Rydym yn cydweithio'n agos ag Ofwat a phartneriaid eraill i sbarduno gwelliannau ledled y sector, sy'n cynnwys lleihau digwyddiadau llygredd a hyrwyddo arfer gorau ar draws y diwydiant. Byddwn yn parhau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif ar bob lefel, o weithrediadau rheng flaen i arweinyddiaeth uwch.

Bu cyhoeddiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â rheoleiddio'r sector dŵr. Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2025, ac mewn ymateb i hynny cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd ym mis Chwefror 2026 - *Llunio Dyfodol Llywodraethu Dŵr yng Nghymru*. Mae argymhellion yn y dogfennau hyn yn amlinellu cynllun unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid y system ddŵr.

Yn ogystal â hyn, mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) yn cyflwyno pwerau gorfodi newydd ar gyfer y diwydiant dŵr drwy Gosbau Ariannol Amrywiol (VMPs) a Chosbau Ariannol Awtomatig. Gweler rhagor o wybodaeth isod:

- Bydd Chosbau Ariannol Awtomatig yn berthnasol i achosion penodol o dorri rheolau ac, yn wahanol i opsiynau gorfodi presennol, bydd yn ofynnol i CNC orfodi cosb os yw'r meini prawf cyfreithiol wedi'u bodloni;
- Bydd VMPs yn cynnig opsiwn gorfodi sifil ychwanegol ochr yn ochr â dulliau gorfodi presennol CNC, gan gynnwys erlyniad troseddol lle bo'n briodol;

- Gallai cosbau ariannol fod yn sylweddol, gyda VMPs o hyd at £500,000 fesul achos o dorri rheol, ac ar gyfer Chosbau Ariannol Awtomatig disgwylir cosb o oddeutu £10,000 fesul achos o dorri rheol;
- Mae CNC yn datblygu ei ddull gweithredu ac yn cefnogi ymgynghoriad sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru sydd ar ddod, y disgwylir iddo barhau am 12 wythnos o fis Rhagfyr 2026.

7. Strategaeth data a galluedd dadansoddol

Rydym yn gwella ein systemau data drwy ein platfform i gwsmeriaid a'n strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer 2030 drwy archwilio offer i wneud y mwyaf o alluedd dadansoddi data, gan gydweithio â rheoleiddwyr eraill i fabwysiadu arferion gorau. Bydd data gwell yn cynorthwyo'r gwaith o reoleiddio a monitro cydymffurfiaeth yn fwy effeithiol.

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom sefydlu Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr newydd fel swyddogaeth genedlaethol i gynnig dull cyson o asesu cydymffurfiaeth, rheoli data a gwneud penderfyniadau rheoleiddiol ledled Cymru yn gysylltiedig â gollyngiadau dŵr.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y tîm asesiadau cydymffurfiaeth cenedlaethol ar draws rhaglenni monitro allweddol, gan gynnwys hunan-fonitro gan weithredwyr, data llif a gorlifoedd storm, ac adroddiadau ar Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae hyn wedi cryfhau cysondeb a chadernid data cydymffurfio a ddefnyddir ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol.

Mae'r tîm yn blaenoriaethu gwella ansawdd data a datblygu prosesau ac offer cenedlaethol i gefnogi asesiad cydymffurfiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi gwaith i nodi a datrys problemau cydymffurfio cymhleth neu aml-ardal, gan gyfrannu at gamau gorfodi cymesur lle bo angen.

Gan weithio'n agos gyda'n timau gweithredol, mae'r Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr yn rhoi cyngor technegol, hyfforddiant a chymorth, gan helpu i wella cysondeb mewn canlyniadau cydymffurfiaeth wrth gefnogi darpariaeth reoleiddio leol effeithiol.

Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2026

Bydd blwyddyn adrodd 2026 yn nodi'r flwyddyn gyntaf o [fethodoleg wedi'i diweddarau](#) ar gyfer cylch adrodd yr EPA sy'n cwmpasu 2026 i 2030. Rydym hefyd yng nghyfnodau cynnar chyfnod Cynllun Rheoli Asedau (AMP8) newydd ac Adolygiad Pris (PR24) newydd. Rydym yn disgwyl i DCWW gwneud cynnydd cadarnhaol, gan wrthdroi'r tueddiadau dirywiol a welwyd yn 2025.

Mae blwyddyn ddata 2026 yn cynrychioli newid sylweddol o ran adrodd cwmnïau dŵr. Yng Nghymru, cyhoeddodd CNC **Nodyn Canllaw 018**, *Digwyddiadau llygredd cwmnïau dŵr (GN018)*, tra yn Lloegr cyhoeddodd yr EA y **WIRI - Canllawiau ar gyfer adrodd ac asesu digwyddiadau rheoleiddio'r diwydiant dŵr**. Mae'r dogfennau hyn yn disodli **LIT 11244**, *Cofnodi a chategoreiddio digwyddiadau llygredd hunan-gofnodwyd gan y diwydiant dŵr (Cyfarwyddyd Gweithredol 16_02 gynt)*, a dynnwyd yn ôl ar 1 Ionawr 2026. Noder bod LIT yn acronym a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Amgylcheddol ar gyfer llenyddiaeth ganllawiau. O ganlyniad i'r canllawiau diwygiedig, rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau llygredd a hunan-gofnodwyd gan gwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr.

Bydd hyn yn effeithio ar gyfanswm metrig digwyddiadau llygredd yr EPA ar gyfer data a gasglwyd o 2026. Felly, ni fydd statws RAG (Coch Oren Gwyrdd) yn cael ei gymhwyso ar gyfer data 2026 a 2027 tra bod llinell sylfaen newydd yn cael ei sefydlu, ac ni fydd perfformiad metrigau'n cyfrannu at sgôr gyffredinol yr EPA. Er mwyn adfer trothwyon RAG ar gyfer y metrig hwn rydym yn bwriadu cynnal dadansoddiad o ddata ddechrau 2028, a fydd yn cynnwys casglu data ac yna proses ac ymgynghoriad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y metrig hwn yn fetrig craidd EPA pan fydd trothwyon RAG yn cael eu hadfer.

Yn gynnar yn 2026, [cadarnhaodd Ofwat ei benderfyniad terfynol i dderbyn yn ffurfiol becyn o ymrwymïadau gorfodadwy gwerth £44.7 miliwn](#) gan DCWW. Mae'n cynnwys £40.6 miliwn i fynd i'r afael â niwed a lleihau gorlifoedd mewn mannau penodol. Bydd y cwmni hefyd yn ymchwilio ac yn gwneud gwaith selio ar rannau preifat o'r rhwydwaith carthffosydd i fynd i'r afael â threiddiad dŵr daear, sy'n ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at orlifoedd sy'n digwydd yn aml.

Yn 2026, disgwyliwn i DCWW:

- lleihau cyfanswm y digwyddiadau carthffosiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn;
- lleihau digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr);
- cyflawni cydymffurfiaeth ansawdd dŵr rhifol 100%;
- gwella'r drefn hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd, yn unol â'r gofynion yn GN018, yn enwedig o ran gorsafoedd pwmpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff;
- parhau i gynnal lefelau perfformiad boddhaol o ran defnyddio a gwaredu slwtsh;
- parhau i gyflawni 100% o gynlluniau AMP Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol.

Fel yr amlinellwyd yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, mae sawl maes ychwanegol sydd angen sylw i gryfhau perfformiad amgylcheddol cyffredinol. Yn 2026, rydym hefyd yn disgwyl i DCWW:

- lleihau digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr a gweithgareddau adnoddau dŵr;
- cynyddu cydymffurfiaeth â chyflwr disgrifiadol i 100%;
- gwella cydymffurfiaeth gydag amodau llif ar draws safleoedd perthnasol;
- lleihau gollyngiadau ar draws y rhwydwaith dosbarthu dŵr.

Atodiad 1: Methodoleg asesu perfformiad

Mae perfformiad cwmnïau dŵr yn cael ei gofnodi bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr. Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau EPA ag EA. Mae'r aliniad hwn yn galluogi cofnodi a meincnodi perfformiad DCWW yn erbyn y 9 cwmni dŵr a charthffosiaeth mawr sy'n gweithredu yn Lloegr.

I sicrhau cwmpas llawn, rydym yn cyfuno data perfformiad o Gymru â data y darparwyd gan EA ar gyfer y rhan o ardal weithredu DCWW sydd yn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn cyflwyno perfformiad DCWW yn ei gyfanrwydd oni nodir yn wahanol.

Mae'r metrigau hyn yn absoliwt yn hytrach na chymharol, sy'n golygu bod pob cwmni'n cael ei asesu yn erbyn safonau sefydlog. Felly, mae gan bob cwmni'r cyfle i gyflawni statws 4 seren, sy'n arwain y diwydiant.

Mae Fersiwn 13 o fethodoleg yr EPA ar gyfer y cyfnod 2021 i 2025 (a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2025) yn berthnasol i asesu data 2025, a gyhoeddwyd yn 2026.

Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad DCWW yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2015-25

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad metrig EPA y cwmni ers 2015.

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) Digwyddiadau categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffos	59	30	28	28	26	21	23	25	30	36	30
Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) Cyfanswm y digwyddiadau (Categoriâu 1 a 2)	1	0.6	0.3	0.8	0	0.3	3 ¹	5	7	6	9
Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd % (% ar gyfer gorsafoedd pwpio carthion a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn unig)	74	68	63	75	73	80	76 (61)	69 (46)	70 (65)	74 (82)	78 (82)
Cydymffurfio â thrwydded oillwng (gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr) %	98.6	99.0	96.7	98.0	98.3	99.7	98.3	98.5	98.0	98.7	98.1
Defnyddio/Gwaredu slwtsh yn foddhaol %	100	100	100	H/B ²	H/B	H/B	H/B	100	99.8 4	100	100
Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol % y ddarpariaeth arfaethedig	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw	H/B	100	98	100	100	100	100	100	99	99	H/B
Sgôr seren y cwmni	3	3	2	3	3	4	3	2	2	2	2

Allwedd: Statws metrig

Gwyrdd	Perfformiad yn well na'r targed
Oren	Perfformiad yn is na'r targed
Coch	Perfformiad yn sylweddol is na'r targed

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

4 seren	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
3 seren	Cwmni da
2 seren	Cwmni sydd angen ei wella
1 seren	Cwmni sy'n perfformio'n wael

¹ O dan fetrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yng nghyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), mae'r metrig digwyddiadau llygredd difrifol bellach yn cynnwys digwyddiadau difrifol yn ymwneud â chyflenwad dŵr ac nid ydynt yn cael eu normaleiddio mwyach.

² Gwnaethom ohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018-2020 wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol. Cafodd y metrig slwtsh ei adfer fel metrig cysgodol ar gyfer blwyddyn data 2021, ac fel metrig llawn ers blwyddyn data 2022.